OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 169 (Cy.28)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - - *20 Ionawr 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *26 Ionawr 2012*
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1(5) a (7) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod y daw adran 8 o Ddeddf Addysg 2011(**3**) i rym.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(2)(a), yn lle'r geiriau "the Education Act 2002 or the person is barred", rhodder "the Education Act 2002, the person is barred", ac ar ddiwedd y rheoliad ychwaneger y geiriau a ganlyn—

"or the person's employment as a teacher is prohibited under the terms of a prohibition order made by the Secretary of State under section 141B of the Education Act 2002.".

(**1**) 1998 p. 30.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) 2011 p. 21.
(**4**) O.S. 1999/1619 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/3185 (Cy. 43), O.S. 2003/389 (Cy. 51), O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2007/812 (Cy. 69), O.S. 2009/1352 (Cy. 128) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).